

Rhaglen Gyflawn



Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL



CONWY
CYNGOR BWADESTRIF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL



CYNGOR
Sir Ddinbych
Denbighshire
COUNTY COUNCIL



wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWADESTRIF SIROL
wrexham

Cyfarfod

CYD-BWYLLGOR GWE

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD MERCHER, 23AIN MAI, 2018

Lleoliad

Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Ffordd Abergele, Bae Colwyn, LL29 8BF

Pwynt Cyswllt

Sioned Williams

01286 679729

sionedwilliams3@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd: 16/05/2018)

CYD-BWYLLGOR GWE

Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

Councillor Meirion Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Councillor Garffild Lewis	Cyngor Bwrdeistref Conwy
Councillor Huw Hilditch-Roberts	Cyngor Sir Ddinbych
Councillor Ian Roberts	Cyngor Sir y Fflint
Councillor Phil Wynn	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam
Gareth Thomas	Cyngor Gwynedd

Aelodau cyfetholedig heb Bleidlais

Rita Price	Esgobaeth Wreccsam
Haf Williams	Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd
Peter Agnew	Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd
Mair Herbert	Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd
Jonathan Morgan	Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig
Alison Fisher	Cynrychiolydd Llywodraethwr

Swyddogion Heb Bleidlais

Arwyn Williams	Cyngor Sir Ynys Môn
Dr Lowri Brown	Cyngor Bwrdeistref Conwy
Karen Evans	Cyngor Sir Ddinbych
Claire Homard	Cyngor Sir y Fflint
Ian Roberts	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam
Garem Jackson	Cyngor Gwynedd

Swyddogion yn bresennol

Arwyn Thomas	Cyngor Gwynedd
Iwan G. Evans	Awdurdod Lletyol
Dafydd L. Edwards	Awdurdod Lletyol
Steve Vincent	Llywodraeth Cymru
Susan Owen Jones	Rheolwr Busnes GwE
Dr Gwynne Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Rhys Howard Hughes	Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE
Alwyn Jones	Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE
Gareth Williams	Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol GwE

R H A G L E N

1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd am 2018-19.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD 2018-19

I ethold Is-gadeirydd am 2018-19.

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

5. GWOBRAU ADDYSG PROFFESIYNOL CYMRU

6. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

7. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

5 - 7

(copi wedi ei atodi)

8. FFRAMWAITH ATEBOLRWYDD NEWYDD

Cyflwyniad gan Alwyn Jones.

9. ADRODDIAD BLYNYDDOL GWE 2017-18

8 - 15

10. CYNLLUN BUSNES 2017-2020 - LEFEL 1

16 - 30

11. Y GYMRAEG MEWN ADDYSG

31 - 38

12. CYFRIFON TERFYNOL GWE 2017-18

Papurau i ddilyn.

CYDBWYLLGOR GwE

21.02.2018

Yn bresennol:

Y Cynghorwyr: Gareth Thomas – Cadeirydd (Cyngor Gwynedd), Phil Wynn – Is Gadeirydd (Cyngor Bwrdeistrefol Siriol Wrecsam), Garffild Lewis (Cyngor Bwrdeistrefol Conwy), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), a Huw Hilditch-Roberts (Cyngor Sir Ddinbych).

Aelodau Cyfetholedig heb bleidlais: Jonathan Morgan (Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig).

Swyddogion heb bleidlais: Delyth Molyneux (Cyngor Sir Ynys Môn), Dr Lowri Brown (Cyngor Bwrdeistrefol Conwy), Karen Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Claire Homard (Cyngor Sir y Fflint), a Garem Jackson (Cyngor Gwynedd).

Swyddogion yn bresennol: Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE), Iwan G. Evans (Pennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol yr Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd), Susan Owen Jones (Rheolwr Busnes GwE), Dr Gwynne Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Rhys Howard Hughes (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE), Dafydd Ifans, Llyr Gilmour Jones (Eitem 1 yn unig) a Sioned Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau y Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd).

1. YMDDIHEURIADAU

Y Cyngorydd Meirion Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Rita Price (Esgobaeth Wrecsam), Mair Herbert (Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd), Alison Fisher (Cynrychiolydd Llywodraethwyr), Ian Robert (Cyngor Bwrdeistrefol Wrecsam), Steve Vincent (Llywodraeth Cymru), Gareth Williams (Cadeirydd y Bwrdd Ymgynghorol), a Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE).

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw faterion brys.

4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 22 Tachwedd 2017, fel rhai cywir.

5. CYFLWYNIAD G6

Rhoddwyd cyflwyniad i'r Cydbwyllgor o'r system G6, sef system sydd yn galluogi ysgolion i gynnal deialog gyda'i Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant am eu cynnydd drwy fewnbynnu gwybodaeth i mewn i ddangosfwrdd rhanbarthol. Bydd mynediad hefyd ar gael i awdurdodau lleol. Bwriad y system G6 yw trawsnewid y berthynas rhwng GwE ac ysgolion ac i annog cyd-

weithio rhwng ysgolion. Nodwyd bod y sustem eisoes wedi ei dreialu mewn ysgolion yn Sir Ddinbych ac mae'r ymateb iddo wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, ymatebwyd i gyfres o gwestiynau/sylwadau gan aelodau'r cydbwyllgor mewn perthynas â:

- Posiblirwydd i osod lefel mynediad gwahanol i'r sustem ar gyfer gwahanol ddefnyddwyr.
- Mesur dilysrwydd dyfarniad ysgolion wrth iddynt fewnbynnyu gwybodaeth.
- Her o ddelio gydag ysgolion sydd mewn categori coch/melyngoch ond ddim eisiau cael eu cyhoeddi.
- Pwyslais bod y sustem yn arf i wella perfformiad nid arf i arfarnu ysgolion.
- Oes gan y 3 consortiwm arall sustem debyg/oes modd ehangu'r sustem i fod yn genedlaethol?

6. ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN BUSNES LEFEL 1 – CHWARTER 3

Cyflwynodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE adroddiad monitro perfformiad chwarter 3 ar gyfer Cynllun Busnes Lefel 1. Amlygwyd bod angen edrych ar effaith y gweithredu a bod angen sicrhau bod pawb yn glir o beth yw'r rhesymeg tu ôl i'r blaenoriaethau.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, ymatebwyd i gyfres o gwestiynau/sylwadau gan aelodau'r cydbwyllgor mewn perthynas â:

- Cwestiynwyd os yw'n ddilys nodi'r elfen arweinyddiaeth yn 'wyrdd' - mae'r gwaith gweithredu yn 'wyrdd' ond nid yw'r deilliannau.
- Angen trefnu cyfarfod cyn i aelodau'r Cabinet gyfarfod gyda'r WLGA ym mis Mawrth.

PENDERFYNWYD: Derbyn yr adroddiad.

7. ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB 2017-18 - CHWARTER 3

Cyflwynwyd adroddiad gan Reolwr Cyllid yr Awdurdod Lletyol. Nodwyd nad oes newid arwyddocaol yn Adolygiad Chwarter 3.

PENDERFYNWYD: Derbyn yr adroddiad.

8. ADRODDIAD CYLLIDEB SYLFAENOL 2018/19

Cyflwynwyd adroddiad gan Reolwr Cyllid yr Awdurdod Lletyol, a nodwyd bod angen i'r cydbwyllgor mabwysiadu'r gyllideb am y flwyddyn sydd i ddod.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, ymatebwyd i gyfres o gwestiynau/sylwadau gan aelodau'r cydbwyllgor mewn perthynas â:

- Pwysigrwydd rheoli'r risg.
- Awgrym i flaenoriaethu unrhyw adnodd cyllidol sydd dros ben i ysgolion sydd yn y categori 'coch'.
- Pwysigrwydd sicrhau gwerth am arian wrth roi rhagor o arian i ysgolion yn y categori 'coch' - nid yw darparu mwy o arian yn golygu bod yr ysgol am wella.

PENDERFYNWYD: Mabwysiadu'r gyllideb.

9. CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2017/18 – 2020/21

Cyflwynwyd adroddiad gan Reolwr Cyllid yr Awdurdod Lletyol. Nodwyd nad oes newid arwyddocaol yn y ffigyrau ac nid oes angen llawer o newid i'r cynllun gweithredu.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo'r cynllun.

10. COFRESTR RISG

Cyflwynodd Rheolwyr Busnes GwE y gofrestr risg. Nodwyd bod angen i'r cydbwyllgor adolygu cynnwys y gofrestr a'i dderbyn.

PENDERFYNWYD: Derbyn y cofrestr risg.

11. ADRODDIAD Y BWRDD YMGYNGHOROL

Cyflwynwyd adroddiad y Bwrdd Ymgynghorol yn nodi'r trafodaethau a fu yn eu cyfarfod diwethaf. Gofynnwyd i'r Cydbwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

Llongyfarchwyd Aled Evans am ei benodiad mewn rôl arweiniol gyda Llywodraeth Cymru a nodwyd bod Carl Hughes wedi ei benodi fel aelod newydd o'r Bwrdd Ymgynghorol.

PENDERFYNWYD: Nodi cynnwys yr adroddiad.

12. DYDDIADAU CYFARFODYDD

Cyflwynwyd cais am ddyddiadau i gyfarfod Cydbwyllgor GwE am y flwyddyn.

PENDERFYNWYD: Derbyn y cais.

13. MATERION ERAILL YN CODI

Llongyfarchwyd Jonathan Morgan ar lwyddiant Ysgol y Gogarth arolwg Estyn yn ddiweddar.

Nodwyd y bydd Delyth Molyneux yn ymddeol a diolchwyd iddi am ei hymroddiad a'i chyfraniad.



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

23 MAI 2018

Report by: Rheolwr Gyfarwyddwr GwE
Subject: Adroddiad Blynyddol GwE 2017-18

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno Adroddiad Blynyddol GwE 2017-18.

2.0 Cefndir

2.1 Fel y datgenir yng Nghytundeb Rhyng –Awdurdod GwE, bydd GwE yn adrodd yn flynyddol am berfformiad y Gwasanaeth o ran cyflawni Swyddogaethau'r Gwasanaeth a'r Nodau Allweddol.

3.0 Materion i'w hystyried

3.1 Ynghlwm, cyflwynir yr adroddiad blynyddol sydd yn adnabod y cryfderau o ran safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth, ynghyd â'r meysydd sydd angen eu gwella a'u datblygu. Mae'r meysydd sydd angen eu datblygu yn flaenoriaethau yn ein cynlluniau busnes ar gyfer 2018-2019.

3.2 Mae gwybodaeth pellach ar gael mewn perthynas â'r meysydd a nodir isod drwy drefn hunan arfarnu blynyddol y gwasanaeth, ble manylir ar yr hyn a gyflawnwyd yn ystod 2017-

18, yr effaith yn erbyn y camau gweithredu a'r deilliannau am y flwyddyn gyfan, ynghyd â'r blaenoriaethau ar gyfer y cynlluniau busnes ar gyfer 2018-19.

- Safonau:
 - Cyfnod Sylfaen
 - Cyfnod Allweddol 2
 - Cyfnod Allweddol 3
 - Cyfnod Allweddol 4
 - Cyfnod Allweddol 5
 - Safonau Llythrennedd a Rhifedd
 - Safonau yn y Gymraeg
- Safonau (Grwpiau o Ddysgwyr)
 - Bechgyn a Genethod
 - Prydau Ysgol am Ddim
 - Plant Mewn Gofal
 - Saesneg fel iaith ychwanegol
 - Anghenion Addysgol Arbennig
 - Tarddiad Ethnig
 - Sipsiwn a Theithwyr
 - Mwy Abl a Thalentog
- Proffil Arolygiadau Ysgolion Estyn
- Categoriaddio Cenedlaethol
- Darpariaeth
 - Cefnogaeth a Her
 - Tracio
 - Cwricwlwm
 - Asesu
 - Addysgu
 - Llesiant
 - Cymorth ar gyfer arwain, rheoli a llywodraethu
 - Hyrwyddo a chyflawni mentrau Llywodraeth Cymru
- Arweinyddiaeth
 - Estyn
 - Gweithio mewn Partneriaeth
 - Gwerth am Arian

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo a derbyn yr Adroddiad Blynyddol.

5.0 Goblygiadau ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu

oddi fewn yr adnoddau ariannol cyfredol.

6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori a wnaed

8.1 Cynhelir trafodaethau cyson gyda Bwrdd Rheoli GwE.

9.0 Atodiadau

9.1 Adroddiad Blynyddol GwE 2018-19.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Nodaf gadarnhad yn rhan 3.1 o'r adroddiad blaen fod y "meysydd sydd angen eu datblygu yn flaenoriaethau yn ein cynllun busnes ar gyfer 2018/19", ac wrth gwrs bydd angen gweithredu'r cynllun oddi fewn yr adnoddau ariannol cyfredol.

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2017-2018

SAFONAU

Cryfderau perfformiad;

- Mae perfformiad GwE yn y prif ddangosyddion yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 yn parhau i wella'n gyflym, gyda'r rhanbarth yn perfformio uchaf o blith y pedwar consortiwm.
- Cyfnod Allweddol 2 – Yn 2017 roedd y cynnydd yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni yn y Dangosydd Pynciau Craidd [DPC] yn 1.6% o gymharu a'r canran cenedlaethol o 0.9%. Roedd hyn yn uwch na'r cynnydd a welwyd yn y rhanbarthau eraill a GwE bellach yn perfformio orau o'r 4 rhanbarth. Yn 2017 gwelwyd cynnydd o 2% neu fwy mewn tri o'r awdurdodau, Ynys Mon (+2.1%), Gwynedd (+2.3%) a Wrecsam (+2.6%). Perfformiodd 3 o'r 6 awdurdod yn well na'u safle PYD gyda un yn gyfartal.
- Yn 2017 yng Nghyfnod Allweddol 3, cynnydd pellach yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd [DPC]. Mae perfformiad y rhanbarth yn y DPC yn parhau i fod yr uchaf ymhlith y pedwar consortiwm gyda 3 awdurdod, Gwynedd, Conwy a Sir y Fflint yn perfformio'n uwch na'u safle PYD, neu'n agos.
- Cyfnod Allweddol 4 - Mae'r bwlch rhwng perfformiad GwE a'r 2 gonsortia sy'n perfformio'n uwch yn y TL2 + wedi lleihau tua 1%.
- Ar y lefelau uwch [lefel 6+] yng Nghyfnod Allweddol 3, gwelwyd cynnydd ym mhob pwnc craidd. Roedd cynnydd y rhanbarth yn uwch na'r cynnydd cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg. Perfformiad mewn mathemateg, gwyddoniaeth a'r Gymraeg yw'r gorau o'r pedwar consortiwm, gyda'r Saesneg yn ail orau.
- Yng Nghyfnod Allweddol 2 a 3 roedd perfformiad disgyblion GwE sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn uwch na'r ganran cenedlaethol ymhob un o'r prif ddangosyddion ag eithrio Cymraeg yng Nghyfnod allweddol 2.

Dyma'r meysydd ble mae angen gwella perfformiad:

- Mae codi safonau yn y Cyfnod Sylfaen yn parhau yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer gwelliant yn y consortiwm. Er y gwelwyd y cynnydd mwyaf, 0.8% o gymharu a 0.3% yn genedlaethol, yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen [DCS] mae dal cryn waith i'w wneud ar draws y rhanbarth.
- Mae codi safonau yn CA4 yn dal yn flaenoriaeth. Gan fod y dangosyddion CA4 wedi ei diwygio nid yw'r gymhariaeth hanesyddol bellach yn ddilys. Mae GwE yn parhau i berfformio trydydd orau o'r rhanbarthau. Mae angen gwella proffil canlyniadau arolygiadau ysgolion uwchradd.
- Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae perfformiad awdurdodau lleol unigol yn amrywio'n ar draws y rhanbarth. Yn gyffredinol y flwyddyn hon, mae Gwynedd a Conwy wedi perfformio yn agos at y disgwyl ym mwyafrif y dangosyddion. Mae gwella safonau yn yr awdurdodau lleol hynny sy'n perfformio'n is na'u safle PYD cymharol yn flaenoriaeth bwysig.
- Yng nghyfnod allweddol 4 mae gormod o ysgolion ar draws y consortiwm yn perfformio o dan y disgwyliadau. Mae angen gwelliant ym mherfformiad ysgolion yn erbyn y

canlyniad disgwyledig a fodelwyd ym mwyafrif o'r dangosyddion. Angen blaenoriaethu perfformiad yn y L2+ a'r Naw wedi ei gapio.

- Yng Nghyfnod Allweddol 4 mae angen anelu i sicrhau bod perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn hafal os nad yn uwch na'r canran cenedlaethol. Yn 2017, roedd perfformiad dysgwyr PYD y yn L2+ 1.7% yn is na'r 28.6% welwyd yn genedlaethol gyda'r sgôr pwyntiau naw a chap 8.3 pwynt yn is na'r sgôr cenedlaethol. Yng Nghyfnod Allweddol 2 a 3 roedd GwE yn perfformio yn uwch na'r ganran cenedlaethol yn y dangosydd pwnc craidd ac ond ychydig yn is yn y dangosydd cyfnod sylfaen.
- Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae angen gwella perfformiad mewn mathemateg a Saesneg.
- Mae angen gwella deilliannau uwch ar draws y cyfnodau allweddol.

DARPARIAETH

Cryfderau:

- Cefnogaeth a her - mae mwy o gysondeb ar draws y gwasanaeth ac eglurder o ran atebolrwydd y tîm a'r gwasanaeth.
- Model darparu i'r uwchradd - mae pob ysgol uwchradd bellach gyda raglen gefnogaeth sy'n fwy addas i'r diben, ac sy'n cyd-fynd yn well gyda chynllun gwella'r ysgol.
- Mae strwythur mwy effeithiol yn ei le i fod yn herio a chefnogi ysgolion. Rydym eisoes yn gweld gwelliant mewn perfformiad ar draws ystod o ddangosyddion.
- Mae'r gwasanaeth gwella ysgolion yn defnyddio data, gweithdrefnau targedu a thracio yn fwy effeithiol a chyson i herio a chefnogi ysgolion.
- Mae nifer yr ysgolion cynradd a roddwyd mewn categori Estyn (monitro Estyn, Gwelliant Sylweddol a Mesurau Arbennig), bron wedi haneru yn y ddwy flynedd ddiwethaf (o 46 yn 2013-15 i 26 yn 2015-17).
- Mae GwE yn darparu ystod o raglenni dysgu proffesiynol i ymarferwyr, yn amrywio o Gymorthyddion Addysgu Lefel Uwch, i Benaethiaid profiadol.
- Rhoddwyd pwyslais cynyddol yn ystod 2017-18 ar wella ansawdd arweinyddiaeth gan ganolbwyntio ar wella ansawdd arfarnu a chynllunio gwelliant. Mae tystiolaeth glir bod y gweithdai arweinyddiaeth a gynhaliwyd ar gyfer arweinwyr ysgolion cynradd wedi arwain at ddeilliannau gwell, a chadernid gwell o fewn ysgolion i yrru eu taith eu hunain tuag at welliant.
- Mae tîm Llythrennedd a Rhifedd wedi darparu amrywiaeth fawr o raglenni cefnogi a datblygu ar draws y rhanbarth i sicrhau cynllunio a darpariaeth o ansawdd da yn y sectorau cynradd ac uwchradd.
- Mae prosesau effeithiol a roddwyd ar waith wedi arwain at ddull mwy cyson o asesu ar draws y rhanbarth.

- Mae'r gwaith da yn parhau i ddatblygu ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu (OECD), a gweithio ar y cyd gyda'r Academi Arweinyddiaeth Addysg newydd yng Nghymru.
- Addysgu a Dysgu - mae nifer o brosiectau cyffrous a phell gyrhaeddol ar waith fydd yn galluogi holl athrawon y rhanbarth i ddatblygu a dyfnhau eu sgiliau addysgu, eu dealltwriaeth o egwyddorion asesu ffurfiannol ac addysgeg ragorol.

Dyma'r meysydd sydd angen eu datblygu:

- Sicrhau bod ystod ehangach o ddata a gwybodaeth fyw am gynnydd wrth law i Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant, Swyddogion yr ALI ac ysgolion, a bod yr wybodaeth yn cael ei defnyddio'n effeithiol ac yn amserol a hynny'n gyson ar draws pob lefel o weithredu.
- Gwella'r ddarpariaeth, y cynllunio cwricwlwm ac asesu yn y Cyfnod Sylfaen.
- Gwella cynllunio cwricwlwm yn yr ysgolion uwchradd er sicrhau gwell deilliannau ar gyfer pob dysgwr.
- Gwella ansawdd asesu, tracio a rhaglenni ymyriad yn yr ysgolion uwchradd.
- Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer safon A.
- Datblygu a gwella ymhellach ansawdd uwch arweinyddiaeth ac arweinyddiaeth ganol ar draws y rhanbarth.
- Gwella ansawdd arweinyddiaeth adrannol mewn pynciau craidd yn yr ysgolion uwchradd.
- Datblygu darpar benaethiaid / uwch arweinwyr.
- Datblygu a gweithredu strategaeth gyffredin ar gyfer Lles ar draws y rhanbarth.
- Parhau i ymgorffori agenda Cwricwlwm i Gymru yn rheolaidd yng ngwaith tîm ehangach GwE.

ARWEINYDDIAETH

Ers yr arolygiad craidd, mae'r gwasanaeth wedi cymryd camau breision a chyflym i ailstrwythuro ei dîm arweinyddiaeth a gweinyddol. O ganlyniad i hyn, mae mwy o gysondeb ar draws y gwasanaeth ac eglurder o ran atebolrwydd y tîm a'r gwasanaeth.

Cryfderau:

- Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a chadarn yn gryfder pwysig yn GwE. Mae cynlluniau busnes manwl ar amryw o lefelau yn delio gyda phob agwedd ar waith GwE.
- Mae hunan arfarnu yn nodwedd gref yn GwE. Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gyflawni cynnydd yn unol â'r blaenoriaethau. Mae'r pwyslais hwn ar arfarnu ac adolygu yn arwain at welliant sylweddol.

- Mae trefniadau trylwyr a chyfansawdd ar waith i adnabod a rheoli, yn fanwl gywir, risgiau ar lefel leol, rhanbarthol a chendlaethol.
- Mae'r Mynegai Iechyd Sefydliadol (OHI) yn nodi bod GwE yn sefydliad yn y chwarterl uchaf, gyda chryfderau neilltuol o ran cyfeiriad, galluoedd, ac arweinyddiaeth.
- Mae model cynllunio a rheoli perfformiad gwell GwE yn nodi'n glir gweledigaeth, gwerthoedd, blaenoriaethau ac amcanion y gwasanaeth. Mae eglurder ei gyfeiriad strategol a'i fframwaith atebolrwydd cadarn, yn nodweddion allweddol wrth symud ymlaen.
- Drwy ddefnyddio data yn gynyddol effeithiol i adnabod ein blaenoriaethau allweddol, cryfhawyd y cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a phenderfyniadau cynllunio ariannol. Mae adnoddau yn amlwg yn cyd-fynd â blaenoriaethau a defnyddir meini prawf penodol i fonitro ac arfarnu effaith y cyllid.
- Yn gyffredinol, mae prosesau rheolaeth ariannol effeithiol ar waith gan y consortiwm. Mae fframwaith ffurfiol wedi galluogi GwE i ddangos ac asesu gwerth am arian yn well.
- Mae'r swyddogaeth craffu wedi aeddfedu ar draws y rhanbarth. Mae gan aelodau craffu lleol well dealltwriaeth o bwrpas GwE a'i amcanion.

Dyma'r meysydd sydd angen eu datblygu:

- Sefydlu GwE fel Sefydliad sy'n dysgu ac yn gweithio mewn parnethiaeth efo LIC ac OECD.
- Datblygu system rheoli gwybodaeth i ddadansoddi a rhannu'r arferion gorau.
- Parhau i ddatblygu'r berthynas waith i ddatblygu cyfleoedd am ymchwil gweithredol i ysgolion ar draws y rhanbarth.
- Parhau i gryfhau'r cysylltiadau gydag ystod eang o bartneriaid yn unol â'r datblygu'r cwricwlwm newydd, a rhannu adnoddau gyda nifer cynyddol o ysgolion.

Mae'r meysydd sydd angen eu datblygu yn flaenoriaethau yn ein cynlluniau busnes ar gyfer 2018-2019.



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

23 MAI 2018

Adroddiad gan: Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Chyfarwyddwr Arweiniol / Cadeirydd y Bwrdd
Rheoli GwE

Pwnc: Cynllun Busnes (Lefel 1) Rhanbarthol 2017-2020

1.0 Pwmpas yr adroddiad

1.1 Cyflwyno drafft o flaenoriaethau'r Cynllun Busnes 2017-2020 i'r Cyd-bwyllgor i'w cymeradwyo.

2.0 Cefndir

2.1 Mae'r Cynllun Busnes Rhanbarthol 2017-2020 yn nodi'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwelliant 3 blynedd ar draws y rhanbarth.

3.0 Ystyriaethau

3.1 Cynhyrchwyd y cynllun busnes lefel 1 diwygiedig er mwyn adlewyrchu'r blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol cyfredol.

3.2 Mae'r Fframwaith Cynllunio Busnes GwE sydd wedi ei sefydlu yn sicrhau eglurder a chydlyniant strategol wrth gyflwyno'r blaenoriaethau ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

3.3 Noda Cynllun Busnes Rhanbarthol 2017-2020 y blaenoriaethau ar draws y rhanbarth.

Blaenoriaethau Lefel 1 yw'r rhain a'r Rheolwyr Gyfarwyddwr a Chadeirydd y Bwrdd Rheoli sydd â'r cyfrifoldeb dros eu cyflawni fel y swyddogion atebol. Yn y pen draw, y Cyd-bwyllgor sy'n atebol ar gyfer cyflawni yn erbyn y blaenoriaethau.

3.4 Eistedda'r cynlluniau blynyddol lefel 2 a 3 o dan y cynllun lefel 1 sy'n rhoi gwybodaeth manwl o ran blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Darpara'r cynlluniau lefel 2 a 3 fanylion ynghylch y camau gweithredu i'w gweithredu a'r allbynnau a'r meini prawf llwyddiant i'w cyflawni. Mae'r fframwaith cynllunio busnes lefel 3 yn sicrhau atebolrwydd am gyflawni ac yn darparu'r strwythur ar gyfer monitro cynnydd yn effeithiol.

3.5 Darperir adroddiadau cynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes yn chwarterol yng nghyfarfodydd y Cyd-bwyllgor.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo'r Cynllun Busnes diwygiedig ar gyfer 2017-2020.

5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi fewn yr adnoddau ariannol cyfredol.

6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw effaith newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori a wnaed

8.1 Mae Bwrdd Rheoli GwE wedi bod yn ganolog i ddatblygiad y blaenoriaethau.

9.0 Atodiadau

9.1 Cynllun Busnes Lefel 1 2017-2020 (Drafft).

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Mae cymeradwyo Cynllun Busnes blynyddol yn un o swyddogaethau penodol y Cydbwyllgor.

Y Swyddog Cyllid Statudol

Rwy'n gwerthfawrogi'r Cynllun Busnes, sy'n nodi cyfrifoldeb clir am weithrediad priodol ym meysydd busnes, risg, a gwerth am arian, ymhlith eraill. Nodaf fod yr awdur yn datgan, ym mharagraff 5 o'r adroddiad, nad oes goblygiadau ariannol yn deillio o'r adroddiad hwn. Tra bydd yn heriol i weithredu pob agwedd o'r Cynllun Busnes, disgwylir y bydd GwE yn ariannu unrhyw oblygiadau ariannol o fewn ei gyllideb cyfredol.

Cynllun Busnes 2017-20 Lefel 1 (Drafft)



Cynllun Busnes GwE 2017-20 (Drafft)

Lefel 1

1. SAFONAU						
Cyf	Yr Her	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2018-2019	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid
1 1.6 1.7 E1 C ALI x 6 R7 R15	SAFONAU - Sicrhau y cyrhaeddir y safonau uchaf ym mhob cyfnod allweddol a bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd priodol mewn llythrennedd a rhifedd o un cyfnod allweddol i'r llall. Bod pob dysgwr yn ennill cymwysterau sy'n berthnasol i'w gallu a'u potensial ac yn gweithio tuag at fod yn ddwyieithog erbyn eu bod yn un ar bymtheg oed.	Cyfnod Sylfaen - gwella perfformiad y cyfnod sylfaen.	Gwelliannau mewn safonau ar ddiwedd y CS ar draws y rhanbarth gyda _____ yn cyflawni'r DCS.	Marc B.Hughes	Mehedin 2018	Rhaglen gefnogi CS - GGA
1 1.8 1.9 E1 C ALI x 6 R7		Cynnal safonau da Cyfnod Allweddol 2 gan wella'r perfformiad yng Nghonwy.	Cynnal safonau da yn yr Awdurdodau lleol eraill. Cynnydd yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni yn y DPC.	Marc B.Hughes	Mehedin 2018	GGA M5

1. SAFONAU

[illegible]

1. SAFONAU						
Cyf	Yr Her	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2018-2019	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid
1 1.1 – 1.5 1.8 1.9 E1 U R4 R7 R14 ALI x 6		Gwella perfformiad mewn iaith Saesneg	Gwelliant yng nghanlyniadau iaith Saesneg CA4 o 1.5, cyfradd y cynnydd cenedlaethol.	Gaynor Murphy	Awst 2018	C3
1 1.1 1.5 1.8 1.9 E1 U R4 R7 R14 ALI x 6		Gwella perfformiad mewn mathemateg a rhifedd	Gwelliant yn Rhifedd a mathemateg CA4 o 1.5, cyfradd y cynnydd cenedlaethol.	Dafydd Gwyn / Delyth Ellis	Awst 2018	C3
1 1.1 – 1.10 E1 C/U ALI x 6 R11 R14 R15		Gwella perfformiad grwpiau o ddysgwyr: - PYD - Bechgyn - MATH	Gwella perfformiad grwpiau o ddysgwyr (PYD,Bechgyn, MATH) o 1.5, cyfradd y cynnydd cenedlaethol - CS a CA4	Elfyn V Jones / Marc B.Hughes	Awst 2018	Craidd

1. SAFONAU

Cyf	Yr Her	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2018-2019	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid
R16						

2. CWRICWLWM AC ASESU

Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel.

Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella.

Cyf	Yr Her	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2018-2019	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid
2 2.1 – 2.4 2.7 C CaA ALI x 6 R15	CWRICWLWM AC ASESU - Sicrhau bod pob ysgol yn cyflwyno cwricwlwm diddorol sy'n ymateb i ofynion statudol y cwricwlwm cenedlaethol. Sicrhau bod pob dysgwr yn cael eu cefnogi i gyflawni cymwysterau sy'n eu	Gwella'r ddarpariaeth, y cynllunio cwricwlwm a'r asesu yn y Cyfnod Sylfaen.	Mae gan bob ysgol gynradd weithdrefnau cwricwlwm ac asesu priodol ar waith yn y Cyfnod Sylfaen.	Marc B.Hughes	Tymor yr haf 2018	Rhaglen gefnogi CS - GGA
2 2.1 – 2.8 U CaA ALI x 6 R5	galluogi i fod yn ddysgwyr galluog, uchelgeisiol sy'n cyrraedd eu potensial. Sicrhau bod gan bob ysgol brosesau asesu cadarn mewn lle gyda gweithdrefnau targedu, olrhain ac ymyrraeth	Gwella cynllunio cwricwlwm yn yr ysgolion uwchradd er sicrhau gwell deilliannau ar gyfer pob dysgwr.	Mae gan bob ysgol uwchradd gwricwlwm priodol ar waith yng Ngyfnod Allweddol 4 i wella perfformiad yn y dangosyddion perfformiad allweddol.	Paul Mathews-Jones	Tymor yr haf 2018	M17 GGA5

2. CWRICWLWM AC ASESU

Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel.

Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella.

Cyf	Yr Her	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2018-2019	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid
2 2.1 – 2.8 U CaA ALI x 6 R5	cadarn.	Gwella ansawdd asesu, tracio a rhaglenni ymyriad yn yr ysgolion uwchradd.	Mae arweinwyr ar bob lefel yn defnyddio systemau tracio yn effeithiol ac yn amserol i gynllunio ymyriad effeithiol fel bod 90% o ysgolion o fewn 5% i'w targedau ar gyfer L2+, a bod 60% o fewn 2% i'w targedau. Yr un ysgol i'w barnu yn anfoddhaol ym Meysydd Arolygu 3 a 4 yn ystod arolygiad ESTYN.	Paul Mathews-Jones	Medi 2018	Craidd GGA10
2 U CaA ALI x 6 R18		Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer Safon A.	Gwelliant yng nghanlyniadau Safon A ac UG, yn unol â thargedau ac i fod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn dangosyddion allweddol.	Martyn Froggett	Medi 2018	M17 Craidd
2 2.1 – 2.8 C U CiG1 CiG2 CiG3 CiG4 CaA ALI x 6 R19		Cyflawni Cwricwlwm i Gymru - codi ymwybyddiaeth o'r Pedwar Diben o fewn CiG a datblygu'r Meysydd Dysgu a Phrofiad fel rhan o ddiwygio'r cwricwlwm.	Mae pob ysgol yn barod i gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Cwricwlwm effeithiol seiliedig ar sgiliau ar waith mewn 85% o ysgolion, o'r gwaelodlin 81% presennol.	Ruth Thackery	Parhaus	Grant arloesi

3. ARWEINYDDIAETH

Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau.

Cyf	Yr Her	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2018-2019	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid
3 3.1 – 3.17 C U A ALI x 6 R6 Tud. 25	ARWEINYDDIAETH - sicrhau bod gan bob arweinydd weledigaeth addysgol glir ac yn medru cynllunio'n strategol er mwyn cyflawni hyn. Sicrhau bod gan bob sefydliad dysgu y gallu i arwain ar bob lefel i ysbrydoli, hyfforddi, cefnogi, rhannu arfer a chydweithio ar bob lefel i sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni eu potensial. Sicrhau bod egwyddorion arweinyddiaeth ddosbarthol yn cael eu gwreiddio ym mhob sefydliad dysgu ar draws y rhanbarth.	Datblygu a gwella ymhellach ansawdd uwch arweinyddiaeth ar draws y rhanbarth.	Mae gan 85% o Uwch Dimau Arwain brosesau Sicrhau Ansawdd ac atebolrwydd da neu well. Gostyngiad o 50% yn nifer yr ysgolion a osodir mewn Categoriâu Statudol Estyn. Dim ysgol i'w rhoi mewn Categori Statudol Estyn yn annisgwyl. Gostyngiad o 50% yn nifer yr ysgolion mewn Adolygu gan Estyn. Gostyngiad o 50% yn nifer yr ysgolion sy'n cael gradd D yng nghanam 2 y broses Gategoreiddio. Cynnydd o 25% yn nifer yr ysgolion uwchradd a chynradd sy'n cael gradd A yng nghanam 2 y broses Gategoreiddio.	Pam McClean / David Edwards	Parhaus	Craidd
3 3.1 – 3.17 C/U A ALI x 6 R6		Datblygu a gwella ymhellach ansawdd arweinyddiaeth ganol ar draws y rhanbarth.	Mae gan 85% o Dimau Arweinyddiaeth Ganol brosesau Sicrhau Ansawdd ac atebolrwydd da neu well.	Ian Kelly	Parhaus	Craidd M3
3 3.1 – 3.17 C/U CiG1		Cefnogi'r UDA i gyflawni Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol.	Pob ysgol yn y rhanbarth ar y llwybr iawn i gyflawni Cwricwlwm i Gymru.	Ruth Thackery	Parhaus	Grant Arloesi

3. ARWEINYDDIAETH <i>Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau.</i>						
Cyf	Yr Her	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2018-2019	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid
CiG2 CiG3 CiG4 A ALI x 6 R19						
3 3.1 – 3.4 3.6 3.10 - 311 3.14 - 3.17 U A R4 R6 ALI x 6 Tud 26		Gwella ansawdd arweinyddiaeth adrannol mewn pynciau craidd yn yr ysgolion uwchradd. • Iaith Saesneg • Cymraeg • Mathemateg • Gwyddoniaeth	Mae gan 85% o adrannau pynciau craidd brosesau Sicrhau Ansawdd ac atebolrwydd da neu well. Mae arweinwyr canol yn defnyddio systemau tracio yn effeithiol ac yn amserol i gynllunio ymyriad effeithiol fel bod 90% o ysgolion o fewn 5% i'w targedau a bod 60% o fewn 2% yn y pynciau craidd.	Gaynor Murphy Rhian Mair Jones Dafydd Gwyn Nicola Jones	Parhaus	C1 M12
3 3.1 – 3.17 C U A R6 ALI x 6		Datblygu Darpar Benaethiaid / Uwch Arweinwyr	Rhaglen ar gyfer Darpar Benaethiaid ar waith. 50 o unigolion wedi'u hadnabod ac wedi cwblhau'r rhaglen. 25% o'r unigolion sydd wedi cymryd rhan wedi ymgeisio am swyddi UDA neu wedi cael dyrchafiad erbyn diwedd y flwyddyn. Arfarniad cadarnhaol gan ysgolion a chan arfarnwr allanol ar effaith y rhaglen ar unigolion.	Ian Kelly	Parhaus	M3

4. LLES						
<i>Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles.</i>						
<i>Cyf</i>	<i>Yr Her</i>	<i>Gweithredu</i>	<i>Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2018-2019</i>	<i>Cyfrifoldeb</i>	<i>Dyddiad Targed</i>	<i>Ffynhonnell gyllid</i>
4 4.1 - 4.12 C U LI R11 ALI x 6 Tud. 27	LLES - Creu'r amodau i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu fel unigolion iach, gwydn a chyfrifol yn fyd-eang a darparu system addysgol gynhwysol, uchelgeisiol, sy'n ymroddedig i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb fel bod pobl ifanc yn cyflawni eu llawn potensial.	Datblygu a gweithredu strategaeth gyffredin ar gyfer Lles ar draws y rhanbarth.	Gweithredu'r strategaeth ar draws y rhanbarth. Dull cydweithrediadol ac effeithiol ar gyfer cyflawni agenda genedlaethol gyffredin gyda rolau a chyfrifoldebau clir i'r holl bartneriaethau. Gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol gyda'r holl asiantaethau allweddol sy'n cefnogi'r agenda i sicrhau effaith gadarnhaol ar bob dysgwr. Ysgolion yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn effeithiol.	Sharon Williams	Tachwedd - Rhagfyr 2018.	Craidd

5. ADDYSGU						
<i>Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel.</i>						
<i>Cyf</i>	<i>Yr Her</i>	<i>Gweithredu</i>	<i>Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2018-2019</i>	<i>Cyfrifoldeb</i>	<i>Dyddiad Targed</i>	<i>Ffynhonnell gyllid</i>
5 5.1 – 5.9 C/U D R4 R5 ALI x 6	ADDYSGU - Sicrhau bod pob athro a staff cymorth wedi'u harfogi â dealltwriaeth glir o beth yw addysgu effeithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth ddibynadwy. Yn ogystal, mae'r gallu i gyflwyno ystod o ddulliau, sy'n cyfateb anghenion dysgwyr â'r cyd-	Gwella a chryfhau rôl arweinwyr wrth arwain y dysgu a'r addysgu.	Mae gan bob UDA ac AC mewn ysgolion y sgiliau angenrheidiol a dealltwriaeth o addysgu da ac eithriadol er mwyn cynnig arweiniad a hyfforddiant yn eu hysgolion. Mae addysgu effeithiol ar waith mewn 85% o ysgolion, o'r gwaelodlin 81% presennol. Cyflawnir disgwyliadau Estyn, hynny yw,	Stella Gruffydd / Bethan James	Tachwedd 2018	C1

5. ADDYSGU

Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel.

<i>Cyf</i>	<i>Yr Her</i>	<i>Gweithredu</i>	<i>Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2018-2019</i>	<i>Cyfrifoldeb</i>	<i>Dyddiad Targed</i>	<i>Ffynhonnell gyllid</i>
	destun yn effeithiol, er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol ar ddysgu a chyflawniad yn hollbwysig.		bod 85% neu fwy o wersi yn dda neu well, gan 85% o ysgolion ar draws y rhanbarth. Cynnydd cyffredinol o 5% mewn barnau da neu well ar gyfer y dysgu a'r addysgu ym mhob ysgol a arolygir gan Estyn.			
5 5.1 – 5.9 C/U D R4 R5 AL 6 Tud. 28		Gwella ansawdd yr addysgu a'r profiadau i bob dysgwr.	Cymorth a hyfforddiant pwrpasol i ysgolion risg uchel lle mae materion allweddol sy'n ymwneud â dysgu ac addysgu (i'w gadarnhau). Mae safonau addysgu yn yr ysgolion hynny sy'n rhan o Brosiect Asesu Ffurfiannol ac Addysgeg, dan arweiniad timau ymchwil weithredu Shirley Clarke mewn ysgolion, yn gyson dda neu well, gydag unigolion sy'n cymryd rhan ar Haen 1 yn arddangos arfer ragorol. Mae adroddiadau Estyn ar ysgolion sy'n cymryd rhan yn cadarnhau hyn. Effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig ac uwch.	Stella Gruffydd / Bethan James	Tachwedd 2018	Grant Arloesi C1 C2

6. BUSNES

Cyf	Yr Her	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2018-2019	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid
6 B	BUSNES - Sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.	Ymgorffori'r G6 ar draws y rhanbarth a pharhau i ddatblygu defnydd effeithiol o'r system i hwyluso cydweithio a rhannu arferion llwyddiannus.	Gwybodaeth yn cael ei defnyddio'n effeithiol ac yn amserol a hynny'n gyson ar draws pob lefel o weithredu. Ystod ehangach o ddata a gwybodaeth fyw am gynnydd wrth law i Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant, Swyddogion yr ALL ac ysgolion.	Llyr G Jones	Mehefin 2018	Craidd
6 B 6.7		Cynnal arolwg iechyd sefydliadol	Anelu at berfformiad yn chwarterl uchaf y mynegai iechyd sefydliadol.	Susan O Jones		Craidd
6 B 6.8		Sefydlu GwE fel Sefydliad sy'n Dysgu yn gweithio mewn partneriaeth efo LIC a OECD	Dangos cynnydd o un flwyddyn i'r llall yn erbyn 7 dimensiwn y model Sefydliad sy'n Dysgu.	Rhys H Hughes		Craidd
6 B Tud. 29		Parhau i ddatblygu'r berthynas waith i ddatblygu cyfleoedd am ymchwil gweithredol i ysgolion ar draws y rhanbarth.		Rhys H Hughes		Craidd







ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

23 Mai 2018

Adroddiad gan: Alwyn Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE

Pwnc: Y Gymraeg mewn Addysg

1.0 PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo'r cynigion a amlinellir isod (4) er mwyn grymuso'r Awdurdodau a'r Rhanbarth i ymateb i, ac i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru fel y nodir yn:

- *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*
- Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl – Cynllun Gweithredu 2017-21
- Y Gymraeg mewn Addysg – Cynllun Gweithredu 2017-21
- Un iaith i bawb: Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4

2.0 CEFNDIR

2.1 Gweledigaeth Llywodraeth Cymru - *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*: mae ymateb i'r her o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn galw am newidiadau pellgyrhaeddol. Nod LIC yw:

- **Addysg statudol:** creu system addysg statudol sy'n cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg hyderus.
- **Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau:** cynllunio er mwyn cynyddu a gwella'n sylweddol:
 - y gweithlu addysg a hyfforddiant sy'n gallu addysgu'r Gymraeg ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
 - yr adnoddau a'r cymwysterau sydd eu hangen

Er mwyn cyflawni'r targed bydd Llywodraeth Cymru yn gyrru'r newidiadau trawsnewidiol canlynol o fewn y sector addysg:

- Cynyddu'r gyfran o bob grŵp blwyddyn ysgol sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg o 22 y cant (sy'n seiliedig ar 7,700 o ddysgwyr saith oed yn 2015/16) i 30 y

cant (tua 10,500 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2031, ac yna i 40 y cant (tua 14,000 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2050.

- Gweddnewid sut rydym yn addysgu Cymraeg i bob dysgwr fel bod o leiaf 70 y cant o'r dysgwyr hynny'n gallu dweud erbyn 2050 eu bod yn gallu siarad Cymraeg erbyn iddynt adael yr ysgol.
- Cynyddu nifer yr athrawon cynradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o 2,900 i 3,900 erbyn 2031 ac i 5,200 erbyn 2050; cynyddu nifer yr athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu Cymraeg o 500 i 900 erbyn 2031 ac i 1,200 erbyn 2050; a chynyddu nifer yr athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o 1,800 i 3,200 erbyn 2031 ac i 4,200 erbyn 2050.

Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl, Cynllun Gweithredu 2017-21: bydd llunio cwricwlwm cenedlaethol a threfniadau asesu sy'n gweddnewid yn hanfodol i wireddu gweledigaeth LIC ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Y nod yw sicrhau y bydd ganddynt safonau llythrennedd a rhifedd uwch, byddant yn fwy cymwys yn ddigidol ac yn ddwyieithog, a byddant yn datblygu'n feddylwyr mentrus, creadigol a beirniadol. Bydd y cwricwlwm cenedlaethol yn seiliedig ar degwch a rhagoriaeth ac yn helpu i feithrin y bobl ifanc yn ddinasyddion hyderus, galluog a gofalgarg. Mae datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a gwella addysgu a dysgu Cymraeg i bob dysgwr wrth wraidd y diwygiadau hyn.

Gweledigaeth Y Gymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017-21 yw galluogi pob dysgwr i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg a defnyddio'r iaith yn hyderus yn ei fywyd bob dydd. Mae egwyddorion arweiniol y ddogfen hon fel a ganlyn:

- Cydnabyddir a gwerthfawrogir bod addysgu a dysgu'r Gymraeg yn rhan annatod o system addysgu Cymru o'r blynyddoedd cynnar hyd at ddarpariaeth ôl-orfodol.
- Drwy'r cwricwlwm newydd bydd pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog sy'n gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, a thrwy lwyfannau digidol, drwy'r Gymraeg a'r Saesneg.
- Gall dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg atgyfnerthu'r broses o ddysgu'r Gymraeg a galluogi plant a phobl ifanc i ddatblygu eu hyder i ddefnyddio'r iaith mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau.
- Mae pob ymarferydd ac arweinydd yn datblygu eu sgiliau Cymraeg a hefyd eu dealltwriaeth ehangach o'r Gymraeg yn ei chyd-destun hanesyddol a diwylliannol.
- Mae ymchwil i gaffael iaith, dwyieithrwydd ac addysgu Cymraeg effeithiol yn llywio'r addysgu a'r dysgu.
- Wrth ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg, gall plant a phobl ifanc ddatblygu sylfaen ar gyfer dysgu ieithoedd ychwanegol, yn barod i fod yn ddinasyddion ar gyfer Cymru a'r byd.

Un iaith i bawb: Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4: daeth adolygiad annibynnol o Gymraeg ail iaith yn 2013 i'r casgliad ei bod yn 'unfed awr ar ddeg i Gymraeg ail iaith'. Un o argymhellion yr adolygiad oedd y dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r cwricwlwm i gynnwys 'un continwwm o ddysgu Cymraeg, ynghyd â disgygliadau clir ar gyfer disgyblion sy'n dysgu Cymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg a lleoliadau dwyieithog'.

Yn dilyn cyhoeddi *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru* 10, ym mis Chwefror 2015, daethpwyd i'r casgliad y dylai'r Gymraeg barhau i fod yn orfodol hyd at 16 oed ac y 'dylai ysgolion ganolbwyntio o'r newydd ar ddysgu Cymraeg yn bennaf fel ffordd o gyfathrebu'. Derbyniodd LIC argymhellion yr adolygiad a chytunwyd y byddai continwmm dysgu Cymraeg yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd i Gymru. Bydd y continwmm hwn yn sail ar gyfer addysgu a dysgu Cymraeg ac ieithoedd eraill yn y dyfodol.

Strategaeth Ranbarthol: Yn ogystal, mae LIC yn awyddus i'r consortia addysg lunio strategaeth ranbarthol ar gyfer y Gymraeg. Disgwylir i'r strategaeth adlewyrchu blaenoriaethau ac anghenion penodol y rhanbarth, ac Awdurdodau Lleol, gan roi ystyriaeth briodol i'r canlynol:

- Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg pob Awdurdod Addysg
- Adroddiad Aled Roberts - Adolygiad brys o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg pob Awdurdod
- Strategaeth Iaith pob Awdurdod
- Strategaeth Iaith Uwchradd (Gwynedd yn unig)
- Gweithrediad ac effaith y Siarter Iaith Gymraeg ymhob Awdurdod
- Gweithrediad ac effaith Cymraeg Campus ymhob Awdurdod

2.2 Y SEFYLLFA BRESENNOL

IS-GRŴP Y GYMRAEG

Mae Is-grŵp Y Gymraeg yn rhan o fframwaith atebolrwydd GwE. Caiff materion sydd yn amlygu eu hunain fel rhai sydd angen sylw eu cyfeirio at y Bwrdd Ansawdd Rhanbarthol (BAR) ac yna i'r Bwrdd Rheoli, yn ôl yr angen.

Hwylisir gwaith yr Is-grŵp gan Adran Addysg Gwynedd ar gais y Bwrdd Rheoli GwE, ac fe ystyrir materion fel y gosodwyd allan yn y Cynllun Busnes neu fel y gofynnir amdanynt gan y Bwrdd Rheoli, Llywodraeth Cymru ac ESTYN, gan gymryd cyngor fel y bo'n briodol.

Nodir swyddogaethau'r Is-grŵp fel a ganlyn:

- Llunio Cynllun Busnes er mwyn ymateb i flaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Sicrhau gweithrediad effeithiol o flaenoriaethau Cynllun Busnes yr Is-grŵp.
- Sicrhau atebolrwydd priodol o flaenoriaethau Cynllun Busnes yr Is-grŵp.
- Llunio adroddiad monitro/cynnydd Cynllun Busnes yr Is-grŵp a'i ddadansoddi ar sail cyflawniad a risg pellach.
- Yn unol â'r drefn gytunedig, cyfeirio materion sydd yn eu hamlygu eu hunain fel rhai sydd angen sylw at y Bwrdd Ansawdd Rhanbarthol ar gyfer ystyriaeth bellach.
- Paratoi adroddiad monitro chwarterol i'r Bwrdd Ansawdd Rhanbarthol.
- Cyfrannu at gynllunio ac argymhell camau gweithredu i'r Bwrdd Ansawdd Rhanbarthol ynglŷn â grantiau ac adnoddau rhanbarthol.

Prif flaenoriaethau Cynllun Busnes 2017-18 yr Is-grŵp oedd:

- i. Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

- ii. Siarter Iaith Genedlaethol Ysgolion Cynradd - (Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc).
- iii. Athrawon Ymgynghorol y Gymraeg / Canolfannau Iaith.
- iv. Hyfforddi'r gweithlu presennol ar draws y rhanbarth / Recriwtio a chadw staff dwyieithog.
- v. Cynllunio bwriadus a sicrhau dilyniant o'r Blynyddoedd Cynnar.
- vi. Y Gymraeg fel Ail Iaith.
- vii. Prosiect Cefnogi Arferion Iaith Uwchradd

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod mai'r system addysg yw'r prif ddull ar gyfer sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac ar gyfer creu siaradwyr newydd. Yn sgil hyn, mae rôl a chylch gorchwyl yr Is-grŵp wedi esblygu yn sgil prosiectau penodol megis y Siarter Iaith a'r Cynllun Datblygu'r Gweithlu. Amlinellir isod trefniadau presennol y prosiectau penodol yma.

TREFNIADAU RHEOLI SIARTER IAITH RHANBARTH Y GOGLEDD ERS 1 EBRILL 2017

Cefnogir y gwaith o ledaenu'r Siarter Iaith gan Adran Addysg Gwynedd. Penderfynwyd gan Fwrdd Rheoli GwE ym mis Tachwedd 2016 y byddai tri Chydlynnydd Siarter Iaith yn cael eu penodi ar gyfer Gwynedd/Môn, Conwy/Dinbych a Wrecsam/Fflint.

Sefydlwyd cyfundrefn reoli, monitro a sicrhau ansawdd bwrpasol ar gyfer gwaith y Siarter yn rhanbarthol. Mae'r Siarter Iaith yn un o flaenoriaethau sydd wedi ei nodi yng Nghynllun Busnes yr Is-grŵp (Lefel 2) gyda chynlluniau busnes y tri Chydlynnydd (Lefel 3) yn bwydo i mewn i'r cynllun rhanbarthol hwn.

DATBLYGU'R GWEITHLU I GEFNOGI'R GYMRAEG MEWN ADDYSG

Yn 2017/18, bu i Lywodraeth Cymru ymrwymo i fuddsoddi £4.2m ychwanegol er mwyn rhoi hwb i addysgu a dysgu Cymraeg a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Roedd yr arian a ddyrannwyd ar gyfer:

- Cefnogi'r gwaith o ddarparu ac ehangu'r cynllun Sabothol Cenedlaethol i athrawon cynradd ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.
- Gwellu sgiliau Cymraeg dysgwyr drwy gyfleoedd anffurfiol – rhaglen o gymorth i helpu ysgolion cyfrwng Saesneg
- Denu graddedigion cyfrwng Cymraeg – angen recriwtio mwy o raddedigion i fod yn athrawon yn y sector cyfrwng Cymraeg ac i addysgu Cymraeg fel pwnc.

Yn ychwanegol bu i bob consortiwm addysg dderbyn dyraniad ychwanegol tuag at ddatblygiad proffesiynol sgiliau Cymraeg ac addysgeg addysgu ymarferwyr.

Roedd yn ofynnol i'r consortia ymgymryd â rhaglen o waith fyddai'n cynnwys:

- datblygu dealltwriaeth o sgiliau iaith ymarferwyr y rhanbarth a'u gallu i addysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg:
- adnabod ymarferwyr i gymryd rhan yn y Cynllun Sabothol, ar wahanol lefelau, a chydweithio gyda darparwyr y Cynllun a'r Llywodraeth i flaenoriaethu cyrsiau'r Cynllun.

- cynnal rhaglen o ddatblygu proffesiynol iaith Gymraeg i ymarferwyr sydd yn cefnogi ac yn ategu'r Cynllun Sabothol ac sy'n cynnwys cyfleoedd mentora, cefnogaeth ysgol i ysgol ayb.
- rhannu arfer da o ran addysgeg effeithiol.

O ganlyniad, yn 2017/18, bu i Gonsortium Addysg GwE dderbyn dyraniad grant o £557,051. Sefydlwyd Bwrdd Prosiect i lywio'r gwaith ac mae'r rhaglen waith yn cynnwys cydweithio ar draws 6 awdurdod addysg y Gogledd.

Ar gyfer 2018/19, mae GwE wedi derbyn dyraniad grant pellach o £614,240.

GRANT GWELLA ADDYSG (GGA) / CYNLLUNIAU STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG

Daeth Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru (2013) yn gyfraith yng Nghymru ar 4 Mawrth 2013. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i baratoi a chyflwyno **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg** i Lywodraeth Cymru. Yn dilyn y tair blynedd gyntaf o gylch cynllunio y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA), mae'r Awdurdodau bellach wedi symud ymlaen i'r cam cynllunio nesaf ar gyfer 2017-2020.

Mae angen ystyried y CSGA yng nghyd-destun strategaeth ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, yn ogystal â pholisïau a blaenoriaethau eraill LIC. Mae gofyn i'r CSGA amlinellu sut bydd awdurdodau lleol yn cyflawni nodau a thargedau LIC.

Mae'r CSGA wedi sefydlu sail gadarn ar gyfer cynllunio addysg cyfrwng Gymraeg ar draws Cymru ac addysg iaith Gymraeg a dwyieithog.

O ran y Grant Gwella Addysg (GGA), mae'r disgwyl i'r awdurdodau ei ddefnyddio i gefnogi gweithredu eu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Mae'r gwasanaethau a'r ddarpariaeth a gynigir ar draws yr Awdurdodau yn amrywio ar draws y rhanbarth o Ganolfannau Iaith i Dimau Athrawon Ymgynghorol y Gymraeg.

CYLLIDEB - CRYNODEB

	2017-2018	2018-2019
Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg (Siarter iaith)	£246,400	£241,400
Datblygu'r gweithlu i gefnogi'r Gymraeg mewn addysg	£557,051	£614,240
Grant Gwella Addysg	£2,315,202	£2,138,991
CYFANSWM	£3,118,653	£2,994,631

3.0 MATERION I'W HYSTYRIED

3.1 CAMAU NESAF / 2018-19 YMLAEN

Mae *Cynllun gweithredu Y Gymraeg mewn addysg* yn gosod y cyfeiriad a champau gweithredu penodol ar gyfer gwireddu gweledigaeth LIC, gan bwysleisio'r angen i wella'r gefnogaeth i blant a phobl ifanc sy'n dysgu Cymraeg.

Yr hyn sydd wedi amlygu ei hun yn sgil trafodaethau diweddar yw bod yna gyswllt amlwg ac annatod rhwng blaenoriaethau Cynllun Busnes yr Is-grŵp, cynllun 'Datblygu'r Gweithlu' a blaenoriaethau'r Bwrdd Prosiect, a deilliannau CSGA yr Awdurdodau.

Ar gyfer 2018-19, mae gofyn i'r consortiwm ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer defnyddio'r cyllid 'Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg (Siarter Iaith)' a'r 'Datblygu'r gweithlu i gefnogi'r Gymraeg mewn addysg', i'w gytuno gyda swyddogion polisi Llywodraeth Cymru. Bellach mae yna fwy o hyblygrwydd i ddefnyddio'r cyllid mewn ffordd wahanol, cyn belled a bod hyn yn cwrdd â'r gofynion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol o ran datblygu'r Gymraeg.

Yn sgil hyn, mae'n amserol i adolygu'r strwythur rhanbarthol ar gyfer gosod cyfeiriad strategol i gefnogi'r Gymraeg er mwyn sicrhau bod yr Awdurdodau a'r Rhanbarth yn ymateb i, ac yn adlewyrchu cyfeiriad polisi'r Llywodraeth yn y maes hwn.

4.0 ARGYMHELLION

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo'r argymhellon canlynol:

- Adolygu'r strwythur rhanbarthol ar gyfer gweithredu'n strategol i gefnogi'r Gymraeg.
- Sefydlu *Bwrdd Strategol Y Gymraeg* i arwain, chydlynu a rheoli maes y Gymraeg yn rhanbarthol dan arweiniad strategol GwE. Cytuno ar gylch gorchwyl, aelodaeth a threfn gweithredu, gan ddileu'r Is-grŵp yn ei ffurf bresennol.
- Llunio Cynllun Busnes Lefel 2 Rhanbarthol ar gyfer Y Gymraeg i sicrhau cyfeiriad strategol rhanbarthol yn y maes.
- Sefydlu byrddau prosiect sy'n cyfateb i flaenoriaethau'r Cynllun Busnes er mwyn llywio ac arwain ar feysydd penodol. Bydd gofyn i'r byrddau prosiect lunio Cynllun Busnes Lefel 3 ar gyfer pob maes blaenoriaeth.
- Y Bwrdd Strategol i gymryd cyfrifoldeb am atebolrwydd a monitro chwarterol y Cynlluniau Busnes.
- Y Bwrdd Strategol i dderbyn adroddiadau monitro/cynnydd y Cynlluniau Busnes Lefel 3, a'u dadansoddi ar sail cyflawniad a risg pellach. Byddai materion sydd yn eu hamlygu eu hunain fel rhai sydd angen sylw yn cael eu cyfeirio at Fwrdd Rheoli GwE yn ôl yr angen.
- Cadeirydd Bwrdd Strategol y Gymraeg i fod yn gyfrifol am baratoi adroddiad monitro chwarterol.

- Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yr Awdurdodau – drwy’r Cynllun Busnes Lefel 2 Rhanbarthol ar gyfer Y Gymraeg, adnabod sut mae’r gwaith rhanbarthol yn cefnogi’r deilliannau / blaenoriaethau sydd wedi eu nodi yn CSGA. Byddai modd i’r Awdurdodau fwydo’r adroddiadau monitro chwarterol i’w Fforymau CSGA lleol.
- Bwrdd Strategol y Gymraeg i adolygu’r ddarpariaeth a gynigir ar draws y rhanbarth er mwyn sicrhau fod adnoddau cyfredol yn cefnogi a diwallu anghenion lleol a rhanbarthol yn llawn ac effeithiol.

4.2 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Drwy weithredu’r drefn a amlinellir uchod byddai’n:

- Gosod cyfeiriad strategol clir ac effeithiol ac yn grymuso’r awdurdodau a’r rhanbarth i ymateb i, ac i gyflawni polisi a gweledigaeth Llywodraeth Cymru:
 - *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr.*
 - Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl – Cynllun Gweithredu 2017-21
 - Y Gymraeg mewn Addysg – Cynllun Gweithredu 2017-21
 - Un iaith i bawb: Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4
 - Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg pob Awdurdod Addysg
 - Adroddiad Aled Roberts - Adolygiad brys o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg pob Awdurdod
 - Strategaeth iaith pob Awdurdod
 - Strategaeth iaith Uwchradd (Gwynedd yn unig)
 - Gweithrediad ac effaith y Siarter iaith Gymraeg ymhob Awdurdod
 - Gweithrediad ac effaith Cymraeg Campus ymhob Awdurdod
- Sicrhau gwell trefn a mwy o gysondeb rhanbarthol o ran cefnogi’r Gymraeg i ymateb i anghenion lleol.
- Sicrhau cydlynedd a chynhwysedd briodol i gynnig gwasanaeth rhanbarthol o ansawdd yn y maes.
- Sicrhau defnydd mwy effeithiol o adnoddau rhanbarthol a gwell gwerth am arian.
- Sicrhau fod arbenigeddau ac arferion da yn cael eu rhaeadru ar draws y rhanbarth.

5.0 GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o’r adroddiad hwn. Ar gyfer 2018-19, mae gofyn i’r consortiwm ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer defnyddio’r cyllid ‘Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu’r defnydd o’r Gymraeg (Siarter iaith)’ a’r ‘Datblygu’r gweithlu i gefnogi’r Gymraeg mewn addysg’, i’w gytuno gyda swyddogion polisi Llywodraeth Cymru. Bellach mae yna fwy o hyblygrwydd i ddefnyddio’r cyllid mewn ffordd wahanol, cyn belled a bod hyn yn cwrdd â’r gofynion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol o ran datblygu’r Gymraeg.

6.0 EFFAITH O RAN CYDRADDOLDEB

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 GOBLYGIADAU PERSONÉL

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn

8.0 YMGYNGHORI A WNAED

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Argymhellion ar ffordd ymlaen sydd yn yr adroddiad presennol. Os yw'r Cydbwyllgor yn eu cymeradwyo yna bydd angen adroddiad pellach yn manylu yn ceisio cymeradwyaeth i drefniadau penodol. Mae'n bwysig hefyd fod y gwaith nesaf yn cyfarch unrhyw angen am gytundeb y Cynghorau unigol i elfennau llywodraethu, gweithredu neu ariannol perthnasol sydd yn deillio.

Swyddog Cyllid Statudol:

Nodaf gadarnhad "Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn" yn rhan 5.1 o'r adroddiad o dan 'Goblygiadau Ariannol'. Ar lefel ranbarthol, cytunaf nad oes oblygiadau ariannol uwchben y grant penodol sydd ar gael ar gyfer y gwaith adolygu a datblygu amlinellir yn yr adroddiad. Fodd bynnag, deallaf gall y cynigion a amlinellir olygu ymhlygiadau i'r lefel o ddarpariaeth sydd i'w gyflawni gyda'r grant o fewn rhai awdurdodau addysg unigol.